2. Rwyf wedi cymryd cyfeiriad y safle o Hysbysiad o Benderfyniad y Cyngor. Gan ei fod yn gyson â'r hyn a amlinellwyd ar y Cais a'r Ffurflenni Apêl cysylltiedig, rwy'n fodlon nad oes unrhyw amwysedd, yn hyn o beth.
3. Cyflwynwyd rhwymedigaeth gynllunio o dan Adran 106 y Ddeddf fel rhan o gynnig yr apêl. Mae darpariaethau'r ddogfen honno'n mynnu cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau sy'n ymwneud â darparu tai fforddiadwy, man chwarae a mesurau lliniaru ecolegol. Rwy'n fodlon bod y Cytundeb Adran 106 yn angenrheidiol er mwyn i'r datblygiad fod yn dderbyniol mewn termau cynllunio, ei fod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r datblygiad a'i fod yn ymwneud yn deg ac yn rhesymol â'r datblygiad arfaethedig o ran ei raddfa a'i fath. Mae'n bodloni'r profion statudol a pholisi ac felly mae'n haeddu pwysoliad priodol wrth benderfynu ar yr apêl.

Cais am gostau

4. Cyflwynwyd cais am gostau gan yr apelydd yn erbyn y Cyngor. Mae'r cais hwn yn destun Penderfyniad ar wahân.

Prif fater

5. Y prif fater yn yr achos hwn yw effaith y datblygiad arfaethedig ar ddiogelwch i gerddwyr a diogelwch ar y ffordd.

Rhesymau

6. Mae cynnig yr apêl yn ceisio caniatâd cynllunio llawn ar gyfer adeiladu 120 o anheddau preswyl¹ ar dir lle safodd Ysgol Gyfun Blaengwawr gynt yn Aberaman, Aberdâr. Mae'r hen ysgol wedi'i ddymchwel erbyn hyn, ac roedd llawer o'r deunyddiau adeiladu wedi'u cadw mewn tomenni ar y safle yn ystod fy ymweliad â'r safle. Cafwyd mynediad at yr ysgol o Club Street, drwy'r gyffordd â'r B4275 Cardiff Road, a dyma'r unig fynedfa i gerbydau ar safle'r apêl o hyd. Mae Club Street wedi'i nodweddu gan dai teras preswyl sy'n sefyll ar hyd ymyl ogleddol y lôn gerbydau, ynghyd â chartref gofal a fflatiau preswyl i'r de. Mae parcio ar hyd Club Street wedi'i reoli'n drwm gan gyfyngiadau parcio, sy'n golygu bod galw mawr am leoedd parcio ar y stryd.
7. Mae safle'r apêl wedi'i leoli mewn lleoliad cynaliadwy, yn gyffredinol, o fewn ffiniau anheddiad Aberaman, fel y diffinnir yng Nghynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Felly, nid yw'r Cyngor yn gwrthwynebu'r egwyddor o ddatblygu. Ar ôl ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, gan gynnwys nifer o sylwadau a gyflwynwyd gan bartion â buddiant, nid oes gennyf unrhyw reswm i ddod i gasgliad gwahanol ynghylch y mater hwn. Felly, byddaf yn canolbwyntio ar y prif fater y mae dadl yn ei gylch rhwng y prif bartion, sef effaith y datblygiad ar ddiogelwch i gerddwyr a diogelwch ar y ffordd.

Diogelwch i gerddwyr a diogelwch ar y ffordd

8. Er nad yw cynrychiolwyr priffyrdd y Cyngor wedi cynnig unrhyw wrthwynebiad i'r datblygiad arfaethedig, ac er i'r swyddog achos cynllunio argymhell roi caniatâd cynllunio amodol, gwrthododd y Cyngor roi caniatâd cynllunio yn y pen draws, ar y sail y byddai'r trefniadau mynediad arfaethedig "*...yn niweidiol i ddiogelwch ar y ffordd o ganlyniad i lain gwelededd annigonol ar y gyffordd rhwng Club Street a Cardiff Road, a'r man cyfyng ger mynedfa'r safle, yr ystyrir ei fod yn is-safonol*".² Mae Datganiad o Achos y Cyngor yn ymhelaethu ar y pryderon hyn, gan gyfeirio'n benodol at led annigonol y lôn gerbydau a'r droedffordd i gerddwyr, radiws is-safonol y gyffordd rhwng Club Street a Cardiff Road, a'r lleiniau gwelededd sydd wedi'u cysgodi. Mae hefyd yn dadlau bod amodau'r ffordd ac amodau i gerddwyr yn yr ardal yn cael eu gwaethygu gan y galw uchel am leoedd parcio ar y stryd ar hyd Club Street. I'r gwrthwyneb, dywed yr apelydd, yn amodol ar y mesurau lliniaru arfaethedig, y gellid cyflawni mynediad at y datblygiad oddi ar Club Street heb achosi bygythiad sylweddol i ddiogelwch cerddwyr a'r ffordd. I gefnogi'r safbwynt hwn, cyflwynwyd tystiolaeth sylweddol yn ymwneud â'r rhesymau am deithiau a'u dosbarthiad, dadansoddiad o'r gyffordd a'r lôn gerbydau, darpariaeth parcio, dulliau teithio cynaliadwy, cynllunio teithiau, gorchmynion rheoleiddio traffig a gwybodaeth am anafiadau personol.
9. Nid oes gennyf lawer o amheuaeth y byddai cynllun i ddatblygu 120 o anheddau preswyl yn dwysau'r defnydd o Club Street yn sylweddol o gymharu â'r sefyllfa bresennol, ac y byddai goblygiadau amlwg ar gyfer y llif rhwydd o gerddwyr a cherbydau. Mae'r apelydd wedi cyflwyno dadansoddiad TRICS ac wedi cymharu'r data yn ymwneud â nifer y teithiau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn ei chreu o gymharu

¹ Bydd 12 annedd yn dai fforddiadwy, fel y diffinnir gan Nodyn Cyngor Technegol 2: Cynllunio a Thai Fforddiadwy (TAN2)

² Hysbysiad o Benderfyniad yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI), dyddiedig 24 Gorffennaf 2019

â'r nifer a grëwyd yn flaenorol gan yr ysgol. Nid wyf wedi gweld unrhyw beth i ddangos y byddai siawns realistig o ddefnydd addysg debyg yn aildechrau pe byddai'r apêl yn methu, ac felly nid wyf o'r farn bod defnydd tebyg yn cynrychioli sefyllfa gyfreithlon i gamu'n ôl iddi. Serch hynny, fe'm cynghorwyd y cafodd yr ysgol ei chau yn 2014 ac, fel y cyfryw, rwyf o'r farn bod y gymhariaeth â defnydd hanesyddol Club Street fel prif fynedfa i'r ysgol yn ymarfer ddefnyddiol o ran mesur i ba raddau y byddai'r datblygiad arfaethedig yn achosi niwed.

Lled y lôn gerbydau a pharcio ar hyd Club Street

10. Nid oes llawer o amheuaeth bod y 'man cyfyng' yn gyfagos at rif 1 Club Street yn disgyn islaw'r lled nodweddiadol o 5.5 metr ar gyfer lôn gerbydau a ddisgwyllir ar gyfer datblygiadau preswyl tebyg ac, o ystyried y ffaith mai'r unig fynedfa ymarferol i'r tir yw ar hyd lôn gerbydau sefydledig sy'n disgyn y tu allan i berchenogaeth yr apelydd, nid yw'n ymddangos y byddai modd cyflawni lled parhaus o 5.5 metr ar hyd y lôn gerbydau yn yr achos hwn. Serch hynny, byddai cynnig yr apêl yn darparu ar gyfer lôn gerbydau 5 metr o led yn y 'man cyfyng' rhagddywededig, gyda chyfyngiadau parcio i atal y lled hwnnw rhag cael ei leihau. Byddai trefniant tebyg yn galluogi car safonol a cherbyd nwyddau trwm (HGV) i fynd heibio i'w gilydd ar yr un pryd, gan olygu y byddai mwyafrif y traffig trwodd yn gallu teithio ar hyd y lôn gerbydau'n ddirwystr. Mae'n dir cyffredin o hyd na fyddai dau HGV yn gallu mynd heibio i'w gilydd yn y 'man cyfyng'. Fodd bynnag, o ystyried ei fod yn cynrychioli rhan gyfyngedig o'r lôn gerbydau yn unig, mewn sefyllfa anaml pa fyddai dau HGV yn cyfarfod â'i gilydd, byddai'n bosibl i'r gyrwyr rhagweld y cerbyd arall yn dod tuag atynt ac ildio, yn ôl yr angen. Felly, nid wyf o'r farn bod sefyllfa debyg yn cynrychioli risg sylweddol i ddiogelwch y ffordd.
11. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r ffaith bod galw mawr am leoedd parcio ar y stryd ar hyd Club Street, a gwelwyd tystiolaeth o barcio diwahaniaeth yn ystod fy ymweliad â'r safle. Rwy'n derbyn hefyd y gallai'r arferion hyn rwystro'r lôn gerbydau a'r droedffordd i gerddwyr, ac felly y gallant amharu ar y llif rhwydd o draffig cerbydau a cherddwyr. Serch hynny, mae llawer o'r pryderon hyn yn ymwneud ac arferion parcio anghyfreithlon y gall y Cyngor orfodi yn eu herbyn ac, ar ben hynny, byddai'r galw am leoedd parcio a fyddai'n deillio o'r anheddau arfaethedig yn cael ei fodloni ar y safle, a byddai 48 o leoedd parcio ychwanegol yn cael eu darparu ar dir yn gyfagos at rif 1 Club Street. Byddai'r lleoedd parcio ychwanegol ar gael i'w defnyddio gan drigolion Club Street, defnyddwyr yr eglwys gyferbyn â rhif 1 Club Street a'r bobl hynny sy'n defnyddio'r cae bob tywydd gerllaw. Felly, nid oes gennyf unrhyw reswm heblaw cytuno â dadl yr apelydd, sef y byddai'r ddarpariaeth parcio a gynigir fel rhan o'r datblygiad yn helpu i leddfu'r problemau parcio presennol ar hyd Club Street. Felly, nid wyf o'r farn bod y dadleuon hyn yn cynrychioli rheswm rhesymol i wrthod rhoi caniatâd cynllunio yn yr achos hwn.

Cyffordd rhwng Club Street a'r B4275 Cardiff Road

12. Mae'r Cyngor o'r farn bod dwysáu'r defnydd o'r gyffordd rhwng Club Street a Cardiff Road yn annerbyniol. Yn benodol, mae'n dadlau y byddai radiws is-safonol y gyffordd yn arwain at gynnydd mewn cerbydau llonydd a cherbydau'n gyrru am yn ôl, a fyddai'n niweidio diogelwch y ffordd. Serch hynny, er bod y Cyngor yn dadlau y dylai datblygiad fel yr un a gynigir yn yr achos hwn gael ei wasanaethu gan gyffordd â radiws o 6 metr, nid wyf wedi gweld unrhyw beth sy'n dangos y dylai hyn fod yn ofyniad absoliwt, yn enwedig pan mae'r datblygiad yn cynnig defnyddio mynedfa hen

sefydledig. Mewn gwirionedd, mae arweiniad cenedlaethol³ yn nodi'n glir y gall radiws cornel llai fod yn dderbyniol dan yr amgylchiadau sy'n bodoli yn yr achos hwn. Fel y cyfryw, ac ar ôl ystyried y cyfyngiad cyflymder yn yr ardal, defnydd hanesyddol y gyffordd i wasanaethu ysgol heb unrhyw dystiolaeth o ddamweiniau lle bu anafiadau personol, a'r ffaith bod y gyffordd yn cynrychioli llwybr pwysig lleol i gerddwyr, nid wyf o'r farn bod unrhyw dystiolaeth gymhellol i awgrymu bod geometreg y gyffordd yn cynrychioli bygythiad sylweddol i ddiogelwch cerddwyr na'r ffordd. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rwyf wedi rhoi ystyriaeth benodol o'r ffaith bod y gyffordd wedi gwasanaethu bysiau ysgol yn hanesyddol, a'i bod eisoes yn cael ei defnyddio gan gerbydau casglu gwastraff heb unrhyw dystiolaeth o niwed.

13. Rwyf wedi ystyried pryderon y Cyngor yn ymwneud â'r pellteroedd gwelededd ar gyffordd Club Street/Cardiff Road yn llawn. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn nodi bod gwelededd ar y gyffordd yn rhagori ar y 2.4 metr wrth 40 metr a ddyfynnir yn Nodyn Cyngor Technegol: *Trafnidiaeth* (TAN 18). Nodaf bresenoldeb arhosfan fysiau ger tafarn Blaengwawr ar Cardiff Road, a all guddio gwelededd dros dro. Fodd bynnag, yn gyson â datblygiadau diweddar eraill ar Club Street, ni chynigiodd yr Awdurdod Prifffyrdd unrhyw wrthwynebiad i drefniant tebyg wrth roi sylwadau ar y cais cynllunio. O ystyried y ffaith y bu'r arhosfan fysiau yn ei lle ymhell cyn i'r ysgol gau, ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddangos unrhyw niwed i ddiogelwch y cyhoedd, nid oes gennyf unrhyw reswm i ddod i gasgliad gwahanol ynghylch y mater. Yn wir, mae'r arhosfan dan sylw wedi'i lleoli'n uniongyrchol gyfagos at gilfan hefyd, ac nid oes unrhyw beth i awgrymu y bu angen i'r Cyngor ystyried ei symud y tu allan i linell weld y gyffordd. Fel y cyfryw, ac ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i ba mor aml y caiff y gwasanaeth bysiau ei ddefnyddio, rwyf o'r farn bod gwelededd ar y gyffordd rhwng Club Street a Cardiff Road yn ddigonol i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig.

Diogelwch i gerddwyr

14. Roedd yn amlwg adeg fy ymweliad â'r safle bod y droedffordd i gerddwyr sy'n rhedeg ar hyd ymyl ogleddol Club Street yn meinhaus i tua 800mm ger y gyffordd â Cardiff Road, sy'n sylweddol islaw'r droedffordd 2 metr o led a argymhellir gan y Cyngor. Caiff y pryderon hyn eu gwaethygu gan y ffordd bod yr un rhan o'r droedffordd wedi'i chyfyngu ymhellach gan bolion cyfleustodau a gwasanaethau, tra mae'r droedffordd letach yn cynnwys nifer o risiau, sy'n ei gwneud yn anhygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn a choetsis babanod. Serch hynny, mae'n amlwg bod y cyfyngiadau hyn yn nodweddion hanesyddol y mae defnyddwyr y droedffordd wedi ymdopi â nhw erioed. Beth bynnag, mae'r droedffordd ar ochr ddeheuol Club Street yn amlwg yn llwybr cymharol ddigyfyngiad o Cardiff Road i safle'r apêl, o ystyried y ffaith y cynigir tynnu gatiau presennol yr ysgol a bod cyrbau isel mewn lleoliadau cyfleus. Rwy'n cydnabod pryderon y Cyngor ynghylch y ffaith y gall parcio diwahaniaeth gyfyngu lled y droedffordd a gwelededd ger Blaengwawr Close. Fodd bynnag, rwyf eisoes wedi dod i'r casgliad uchod bod gorfodi parcio anghyfreithlon dan reolaeth y Cyngor, ac y byddai'r datblygiad yn cyfrannu at leddfu'r pryderon hyn. Felly, nid wyf o'r farn bod unrhyw dystiolaeth gadarn i awgrymu y byddai'r datblygiad yn tanseilio diogelwch i gerddwyr yn ddifrifol.

Materion eraill yn ymwneud â diogelwch cerddwyr a'r ffordd, a chasgliad

15. Rwyf wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r beirniadaethau ehangach o dystiolaeth trafndiaeth yr apelydd, ond nid oes unrhyw beth wedi fy arwain at y casgliad nad yw'n ddigon cadarn i ategu honiadau'r apelydd. I'r gwrthwyneb, nid wyf wedi gweld llawer o

³ Llawlyfr Strydoedd 2

dystiolaeth gymhellol gan y Cyngor i'm harwain i wyro oddi wrth y casgliadau a amlinellir uchod. Nodaf y dadleuon bod angen mynedfa amgen a/neu ail fynedfa i safle'r apêl. Fodd bynnag, nid wyf wedi gweld unrhyw beth sy'n awgrymu bod dewis arall ymarferol i'r fynedfa arfaethedig a, beth bynnag, mae'n ofynnol i mi benderfynu ar gynnig yr apêl yn ôl ei deilyngdod ei hun. Ar ben hynny, nid yw cynrychiolwyr priffyrdd y Cyngor wedi awgrymu bod angen ail fynedfa ac nid oes gennyf unrhyw reswm i ddod i gasgliad gwahanol mewn perthynas â'r mater hwn.

16. Ar sail y dadansoddiad blaenorol ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, rwyf o'r farn na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cynrychioli bygythiad sylweddol i ddiogelwch cerddwyr na'r ffordd. Felly, deuaif i'r casgliad na fyddai unrhyw wrthdaro â Pholisi AW5(2)(c) y CDLI mabwysiedig sydd, ymhlith pethau eraill, yn datgan y dylai datblygiadau ddarparu mynediad diogel at rwydwaith y priffyrdd a pheidio ag achosi tagfeydd traffig na gwaethygu unrhyw dagfeydd presennol.

Ystyriaethau perthnasol eraill

17. Rwyf wedi ystyried yr holl faterion eraill a godwyd, gan gynnwys y rhai yn ymwneud â'r aflonyddwch a achosir yn ystod y cyfnod adeiladu. Fodd bynnag, o ystyried natur dros dro yr effeithiau hyn, nid wyf o'r farn eu bod yn cynrychioli rheswm dilys i wrthod caniatâd cynllunio yn yr achos hwn, yn enwedig oherwydd y gellid rheoli'r materion hyn yn foddhaol drwy osod amodau cynllunio. Nodaf y pryderon yn ymwneud ag effaith y datblygiad arfaethedig ar amodau byw preswylwyr cyfagos. Fodd bynnag, ar ôl ystyried lleoliad, cyfeiriadedd a dyluniad cyffredinol yr anheddau arfaethedig, nid wyf o'r farn y byddai'r datblygiad yn annerbyniol yn hyn o beth. Yn yr un modd, ar ôl ystyried y gosodiad a'r dyluniad manwl, ni fyddai unrhyw niwed i gymeriad na golwg yr ardal. Byddai tai fforddiadwy, man chwarae a mesurau lliniaru ecolegol yn cael eu sicrhau drwy'r Cytundeb Adran 106 a grybwyllwyd yn flaenorol, ynghyd ag amodau cynllunio cysylltiedig. Hefyd, nid wyf wedi gweld unrhyw beth sy'n awgrymu na fyddai amod cynllunio'n ymdrin â draenio dŵr budr a dŵr wyneb yn foddhaol. Nid yw'r pryderon yn ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u profi o hyd ac nid yw gwerth eiddo unigol yn fater sy'n berthnasol wrth benderfynu ar yr apêl.
18. Yn ogystal â'r diffyg niwed mewn perthynas â'r materion uchod, rwyf o'r farn bod manteision y cynllun yn pwysoli'n sylweddol o blaid y datblygiad. Yn benodol, byddai'r datblygiad yn defnyddio tir a ddatblygwyd yn flaenorol, fel yr anogir gan Bolisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 10, 2018), a byddai wedi'i leoli o fewn ffin anheddiad diffiniedig Aberaman mewn lleoliad cynaliadwy'n bennaf o ran cyfleusterau a gwasanaethau lleol. Byddai'r datblygiad yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r cyflenwad tir lleol ar gyfer tai hefyd, yr wyf wedi fy nghynghori ei fod yn sylweddol is na'r hyn sy'n ofynnol dan bolisi cenedlaethol, ac yn gwneud cyfraniad cymesur tuag at dai fforddiadwy.

Casgliadau cyffredinol

19. Ar sail yr uchod ac ar ôl ystyried yr holl faterion a godwyd, deuaif i'r casgliad y dylid caniatáu'r apêl, yn ddarostyngedig i'r amodau a bennir yn yr atodlen atodedig. Wrth ddod i'r casgliad hwn, rwyf wedi ystyried y ddyletswydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, dan adran 3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf). Rwyf wedi ystyried y ffyrdd o weithio a amlinellir yn adran 5 y Ddeddf ac rwyf o'r farn bod y penderfyniad hwn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy drwy ei gyfraniad at un neu fwy o amcanion llesiant Gweinidogion Cymru, fel sy'n ofynnol dan adran 8 y Ddeddf.

20. Rwyf wedi ystyried yr amodau awgrymedig ac, ar ôl ystyried y cyngor yng Nghylchlythyr 16/2014 Llywodraeth Cymru: *Defnyddio Amodau Cynllunio i Reoli Datblygu* (Hydref 2014), wedi addasu eu geiriad er mwyn eglurder a manwl gywirdeb. Mae'r rhesymau dros osod pob un o'r amodau wedi'u hamlinellu yn y Rhestr Amodau sydd wedi'i hatodi i'r penderfyniad hwn.

Richard E. Jenkins

AROLYGYDD

Rhestr Amodau

- 1) Bydd y datblygiad yn dechrau heb fod yn hwyrach na phum mlynedd o ddyddiad y penderfyniad hwn.

Rheswm: *I gydymffurfio ag Adran 91 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.*

- 2) Caiff y datblygiad a ganiateir drwy hyn ei gyflawni'n unol â'r cynlluniau a'r dogfennau canlynol, oni bai bod angen eu cymeradwyo fel arall a'u disodli gan fanylion sy'n ofynnol dan unrhyw amod arall sy'n gysylltiedig â'r caniatâd hwn:

- Lluniad o gynllun lleoliad y safle rhif: 1754.PI.01 Rev A
- Lluniad o osodiad y cynllun rhif: 1754.PL01 Rev A
- Lluniad o waith allanol rhif: 1754.EWL01 Rev A
- Lluniad o drefniadau mynediad y safle rhif: IMA-18-15-102
- Lluniad o fanylion garejis rhif: HAS/GAR01
- Lluniad o dai math Tintern rhif: HAS/TH01
- Lluniad o dai math Ascot rhif: HAS/AH02
- Lluniad o dai math Canterbury rhif: HAS/CH03
- Lluniad o dai math Hereford rhif: HAS/HH04
- Lluniad o dai math Harrogate rhif: HAS/HH05
- Lluniad o dai math Radliegh rhif: HAS/RH06
- Lluniad o dai math Lynton rhif: HAS/LH07
- Lluniad o dai math Llandovery rhif: HAS/LH08
- Lluniad o dai math Knightsbridge rhif: HAS/KH09
- Lluniad tai fforddiadwy rhif: HAS/TH01
- Lluniad tai fforddiadwy rhif: HAS/2.1.1. AFF
- Lluniad tai fforddiadwy rhif: HAS/4.2.1. AFF
- Lluniad o adrannau arfaethedig y safle rhif: 18090.C/PL200 Rev 1
- Lluniad o'r cysylltiad â Club Street a gytunwyd â Phriffyrdd, rhif: IMA-18-15-102

Rheswm: *Er mwyn sicrhau y caiff y datblygiad ei gyflawni'n unol â'r dogfennau, cynlluniau a'r lluniadau cymeradwy a gyflwynwyd gyda'r cais.*

- 3) Er gwaethaf y manylion cymeradwy, nid yw'r caniatâd a roddir drwy hyn yn ymwneud â chysylltiad y llwybr troed rhwng y safle a Maesyffynnon Grove a ddangosir ar osodiad y cynllun y cyfeirir ato yn Amod Rhif 2 uchod.

Rheswm: *Er mwyn cynnal cymeriad ac amwynder Maesyffynnon Grove, yn unol â gofyniad polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 4) Caiff yr holl waith plannu, hadu neu dywarchu yn y manylion tirlunio cymeradwy ei gyflawni yn ystod y tymor plannu a hadu cyntaf ar ôl i unrhyw un ddechrau byw yn yr adeilad(au) neu ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau, pa un bynnag sydd gyntaf, a rhaid i unrhyw goed neu blanhigion sy'n marw, yn cael eu tynnu neu'n cael ei difrodi'n ddifrifol neu'n dod yn ddifrifol afiach cyn pen cyfnod o bum mlynedd ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau, gael eu disodli yn ystod y tymor plannu nesaf gan goed eraill o faint a rhywogaeth debyg, oni bai bod yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn rhoi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer unrhyw amrywiad.

Rheswm: *Er lles cymeriad a golwg yr ardal, yn unol â Pholisiau AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 5) Cyn i unrhyw waith ddechrau ar y safle, gan gynnwys gwaith safle o unrhyw ddisgrifiad, rhaid i bob un o'r coed sydd i'w cadw gael eu ffensiō'n ddiogel â ffens bolion castan neu ffens debyg wedi'i gosod mewn cylch o amgylch bob coeden i gyd-fynd â phen pellaf canopi'r goeden. O fewn yr ardaloedd hynny sydd wedi'u ffensiō, ni ddylid codi na gostwng lefel y tir, ac ni ddylai unrhyw ddeunyddiau neu adeiladau dros dro neu bridd dros ben o unrhyw fath gael eu gosod na'u storio ynddynt. Os oes angen unrhyw ffosydd ar gyfer gwasanaethau yn yr ardaloedd sydd wedi'u ffensiō, cânt eu cloddio a'u hól-lenwi â llaw, a chaiff unrhyw wreiddiau coed sydd â diamedr o 5cm neu fwy eu gadael heb eu torri.

Rheswm: *Er lles cymeriad a golwg yr ardal, yn unol â Pholisiau AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 6) Cyn adeiladu'r datblygiad a gymeradwyir drwy hyn, rhaid i fanylion a/neu samplau o'r deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu'r wynebaw allanol gael eu cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y datblygiad ei gyflawni'n unol â'r manylion cymeradwy.

Rheswm: *Er lles cymeriad a golwg yr ardal, yn unol â Pholisiau AW5 ac AW6 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 7) Ni fydd y datblygiad a ganiateir drwy hyn yn dechrau nes bydd cynllun i ymdrin â halogiad wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys pob un o'r mesurau canlynol, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cytuno fel arall yn ysgrifenedig:
- i. Astudiaeth bwrdd gwaith i amlygu a gwerthuso pob ffynhonnell ac effaith bosibl o halogiad sy'n berthnasol i'r safle. Dylai'r astudiaeth bwrdd gwaith gynnwys model cysyniadol o'r safle.
 - ii. Caiff archwiliad llawn ac effeithiol o'r safle ei gyflawni er mwyn nodweddu natur a graddau unrhyw halogiad a'i oblygiadau. Ni fydd yr archwiliad safle'n dechrau nes bydd astudiaeth bwrdd gwaith wedi'i gytuno'n ysgrifenedig â'r Awdurdod Cynllunio Lleol.
 - iii. Datganiad dull ysgrifenedig ar gyfer adfer halogiad sy'n effeithio ar y safle.

Rheswm: *Er mwyn iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol, ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 8) Ni chaiff unrhyw un fyw mewn unrhyw annedd a ganiateir drwy hyn nes i'r mesurau a gymeradwyir yn y cynllun (y cyfeirir atynt yn Amod 7 uchod) gael eu rhoi ar waith, ac nes y bydd adroddiad dilysu addas ar y cynllun arfaethedig wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig.

Rheswm: *Er mwyn iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol, ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 9) Os, yn ystod y gwaith datblygu, y deuir ar draws unrhyw halogiad na amlygwyd yn flaenorol ac sy'n deillio o ffynhonnell wahanol a/neu sydd o fath gwahanol i'r hyn a gynhwyswyd yn y cynigion halogiad, bydd y gwaith yn darfod a rhaid cyflwyno cynigion halogiad diwygiedig i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Ni fydd y datblygu'n aildechrau nes i'r cynigion ychwanegol gael eu cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Rheswm: *Er mwyn iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol, ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 10) Caiff unrhyw uwchbridd, p'un a yw'n naturiol neu wedi'u wneud, neu isbridd i'w fewnfudo ei asesu gan unigolyn cymwys ar gyfer cemegau neu halogyddion posibl, yn unol â chynllun archwilio, a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo cyn iddo gael ei fewnfudo. Yn amodol ar gymeradwyo'r cynllun archwilio, bydd unigolyn cymwys yn samplu'r deunydd sy'n cael ei dderbyn ar safle'r datblygiad er mwyn cadarnhau bod y pridd sydd wedi'i fewnfudo'n rhydd rhag halogiad, yn unol â chynllun ac amserlen a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Dim ond deunydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol fydd yn cael ei fewnfudo.

Rheswm: *Er mwyn iechyd a diogelwch ac amwynder amgylcheddol, ac er mwyn cydymffurfio â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 11) Ni fydd unrhyw ddatblygu'n dechrau nes caiff manylion am gynllun i waredu dŵr budr a dŵr wyneb ei gyflwyno i'r awdurdod cynllunio lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y cynllun ei weithredu'n unol â'r manylion cymeradwyo cyn i unrhyw un fyw yn yr anheddau, a'i gadw am byth.

Rheswm: *Er mwyn sicrhau y caiff draeniad dŵr budr a dŵr wyneb ei waredu'n ddigonol, yn unol â Pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 12) Heblaw ar gyfer gwaith arall i glirio, dihalogi a pharatoi'r safle, ni fydd unrhyw waith adeiladu'n dechrau nes bydd dyluniad peirianegol llawn a manylion am y gwaith i adeiladu mynedfa o Club Street, yn unol â'r lluniad o drefniadau mynediad y safle rhif IMA-18-15-102, gan gynnwys mesurau i ddarparu manau parcio a dadleolir, fel y dangos ar TA cynllun 3 a lluniad gosodiad cynllunio'r cais rhif: PL 01 Rev A, gan gynnwys trychiadau hydredol a thrawstoriadau, cynllun cyfuchlin, manylion am oleuadau stryd, mesurau arafu traffig, gosodiad/dyraniad cilfachau parcio, draenio dŵr wyneb a dargyfeirio gwasanaethau, gan gynnwys manylion adeiladu, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y manylion cymeradwy eu rhoi ar waith yn unol ag amserlen a gytunir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol adeg cyflwyno'r manylion gofynnol.

Rheswm: *Er diogelwch i gerddwyr a'r ffordd, yn unol â darpariaethau Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 13) Heblaw ar gyfer gwaith arall i glirio, dihalogi a pharatoi'r safle, ni fydd unrhyw waith adeiladu'n dechrau nes bydd dyluniad peirianegol llawn a manylion am osodiad y ffyrdd mewmol, fel y dangosir ar luniad gosodiad y cais rhif: PL 01 rev A, gan gynnwys trychiadau hydredol a thrawstoriadau, cynlluniau cyfuchlin, manylion am oleuadau stryd, mesurau arafu traffig, gosodiad a dyraniad cilfachau parcio, draenio dŵr wyneb a manylion am fynedfeydd preifat rhanedig a storfa finiau gysylltiedig, gan gynnwys manylion adeiladu, wedi'u cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Caiff y manylion cymeradwy eu rhoi ar waith yn unol ag amserlen a gytunir â'r Awdurdod Cynllunio Lleol adeg cyflwyno'r manylion gofynnol.

Rheswm: *Er diogelwch i gerddwyr a'r ffordd, yn unol â darpariaethau Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 14) Caiff cerbydau nwyddau trwm (HGVau) sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad eu cyfyngu i 09:30 o 16:30 yn ystod yr wythnos a 09:30 i 13:00 ar ddyddiau Sadwrn, heb unrhyw gludiadau o gwbl ar ddyddiau Sul neu wyliau banc neu gyhoeddus.

Rheswm: *Er diogelwch i gerddwyr a'r ffordd ac amodau byw tai preswyl cyfagos, yn unol â darpariaethau Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 15) Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau, gan gynnwys unrhyw waith dymchwel, nes bydd Datganiad o'r Dull Adeiladu wedi'i gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Cedwir at y datganiad cymeradwy ar hyd y cyfnod adeiladu. Bydd y datganiad yn amodi ar gyfer:

- a. Y fynedfa i'r safle ar gyfer yr holl draffig adeiladu;
- b. Parcio cerbydau gweithwyr ac ymwelwyr â'r safle;
- c. Rheoli traffig cerbydau a cherddwyr;
- d. Llwytho a dadlwytho peiriannau a deunyddiau;
- e. Storio peiriannau a deunyddiau sy'n cael eu defnyddio wrth adeiladu'r datblygiad;
- f. Cyfleusterau golchi olwynion; a
- g. Cynfasau lorïau sy'n gadael y safle.

Rheswm: *Er diogelwch i gerddwyr a'r ffordd ac amodau byw tai preswyl cyfagos, yn unol â darpariaethau Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 16) Bydd y datblygwr yn darparu Cynllun Teithio i ddeiliaid pob annedd a ddylai gynnwys y canlynol:

- a. Darparwyr gwasanaethau bws/trên, eu manylion cyswllt, amlder gwasanaethau, amserlen, arosfannau bysiau/gorsafoedd trenau, costau tocynnau ar hyn o bryd a chymhellion ariannol i'w hannog i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus;
- b. Cyfleusterau parcio a theithio/parcio a rhannu, a chostau a chyfyngiadau cysylltiedig ar gyfer defnyddio'r cyfleusterau hyn;
- c. Cysylltiadau i gerddwyr i wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus i gyfleusterau lleol, manau cyflogaeth, addysg a hamdden;
- d. Taleb neu ddull arall o gyfrannu tuag at gostau tocyn tymor ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus, neu brynu beic neu gyfarpar beicio;
- e. Llwybrau beicio lleol a chenedlaethol; ac
- f. Unrhyw fesurau eraill a fyddai'n eu hannog i ddefnyddio dulliau teithio cynaliadwy

Rheswm: *Er diogelwch i gerddwyr a'r ffordd a defnyddio dulliau teithio cynaliadwy, yn unol â darpariaethau Polisi AW5 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 17) Ni fydd unrhyw waith datblygu'n dechrau nes bydd Cynllun Gwarchod Rhywogaethau, Cynefinoedd a Choed ar gyfer Adeiladu yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo ganddo'n ysgrifenedig. Bydd y cynllun yn cynnwys:

- a. Cynllun priodol ar raddfa sy'n dangos y Parthau Diogelu lle bydd gweithgareddau adeiladu wedi'u cyfyngu a lle caiff mesurau amddiffynnol eu gosod neu eu rhoi ar waith;

- b. Manylion am fesurau amddiffynnol (mesurau ffisegol ac arferion gwaith sensitif) i osgoi effeithiau yn ystod y cyfnod adeiladu, gan gynnwys diogelu coed;
- c. Amserlen sy'n dangos camau'r gweithgarwch adeiladu er mwyn osgoi adegau o'r flwyddyn pan ellir niweidio bywyd gwyllt a rhywogaethau sensitif;
- d. Manylion am fesurau lliniaru rhywogaeth-benodol ar gyfer ystlumod (gan gynnwys cwmpo coed), ymlusgiaid ac adar;
- e. Manylion am fesurau rheoli llygredd dŵr;
- f. Goleuadau sy'n sensitif i fywyd gwyllt;
- g. Rheolaeth ragofalus o blanhigion ymledol;
- h. Cynllun cytûn ar gyfer adrodd i'r Cyngor yn fisol yn ystod y rhaglen adeiladu;
- i. Manylion yr unigolyn sy'n gyfrifol am y canlynol:
 - I. Cydymffurfio â chaniatâd cyfreithiol yn ymwneud â chadwraeth natur;
 - II. Cydymffurfio ag amodau cynllunio sy'n ymwneud â chadwraeth natur (Clerc Gwaith Ecolegol);
 - III. Gosod mesurau amddiffyn ffisegol a rheolaeth yn ystod y cyfnod adeiladu;
 - IV. Rhoi arferion gwaith sensitif ar waith yn ystod y cyfnod adeiladu;
 - V. Arolygu a chynnal a chadw mesurau amddiffyn ffisegol yn rheolaidd a monitro arferion gwaith yn ystod y cyfnod adeiladu;
 - VI. Mesurau lliniaru ar gyfer rhywogaethau penodol a mesurau lliniaru Cynefinoedd; a
 - VII. Darparu hyfforddiant a gwybodaeth am bwysigrwydd y 'Parthau Diogelu' i'r holl bersonél adeiladu ar y safle.

Caiff yr holl weithgarwch adeiladu ei roi ar waith yn unol â manylion ac amseriad cymeradwy'n cynllun, oni bai y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cymeradwyo fel arall yn ysgrifenedig.

Rheswm: *Er mwyn cynnal bioamrywiaeth, yn unol â Pholisi AW8 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*

- 18) Caiff y datblygiad arfaethedig ei gyflawni'n unol â'r ystyriaethau peirianegol ac argymhellion adroddiad archwilio'r safle a baratowyd gan Integral Geotechnique, a gyflwynwyd i ategu'r cais cyhyd â'i fod yn ymwneud â sadrwydd y tir.

Rheswm: *Er mwyn lliniaru unrhyw ansadrwydd posibl, yn unol â pholisi AW10 Cynllun Datblygu Lleol Rhondda Cynon Taf.*